

fframwaith ac arddull y rhaglen. Yr oeddwn yn awyddus iawn i gael cyfweiliad gydag Irvine Weiner, y dyn a drefnodd fechniaeth Humphreys yn 1965 wrth dalu \$100,000. Yn anffodus, Mr Weiner oedd yr unig dyst yn achos dwy lofruddiaeth adnabyddus yn ddiweddar, ac yr oedd yr awdurdodau wedi cyfyngu ei symudiadau. Nid oedd hyn yn syndod oherwydd mai Alan Dorfman (arweinydd undeb y gyrwyr) oedd un a gafodd ei saethu ym mhresenoldeb Weiner. Fe lwyddais i'w berswadio i ddod i'm hystafell yng ngwesty *Holiday Inn* i ateb cwestiynau gan John Morgan am ei ffrind Llewelyn Morris Humphreys, ond yr oedd yn angenrheidiol cael rhai o'n cydweithwyr i warchod pob mynedfa yn y gwesty. Dim ond pethau da oedd gan Weiner (fel bron pawb arall) i'w dweud am ein dyn, ac fe benderfynon ni yn y diwedd beidio â defnyddio'r cyfweiliad yn y rhaglen.

John Morgan oedd cyflwynydd y ffilm, ac ysgrifennodd ef lyfr ar yr un pwnc, sy'n werth ei ddarllen: *'No Gangster More Bold'*. Oddi ar hynny mae sawl llyfr sy'n sôn am Humphreys wedi ei gyhoeddi. Y gorau o'r rhain yw *Double Cross* gan Sam a Chuck Giancana. Yn hwnnw mae enw Humphreys yn cael ei grybwyll ddsenni o weithiau.

O'r holl griw o droseddwr, Humphreys oedd y mwyaf galluog a dyfeisgar o bell ffordd, gyda'i anian ddrygionus yn amlwg ym mhopeth a wnaeth. I'w ferch, fe adeiladwyd tŷ chwarae di-siâp er mwyn dweud: *'there was a crooked man who built a crooked house'*. Roedd yn fedrus iawn yn y busnes o 'olchi arian'. Er mwyn gwneud hyn, fe brynodd olchdy go iawn i'w wraig! Hwn oedd y dyn a greodd *'double indemnity'* fel dyfais i helpu troseddwr o flaen y llys. Hwn oedd y dyn meistrolgar a berffeithiodd ddefnydd o'r 'Pumed Cywiriad' i wneud achosion ar hyd a lled America yn seithug. Ef oedd yr un a aeth



Daeth Frank Sinatra i seremoni graddio Luella.



Fel yr ymddangosodd Murray o flaen y llys.

i Las Vegas gyda Bugsy Segal i weithio ar feddylliau'r barnwyr er mwyn effeithio cyfnewidiadau i gyfreithiau haphwarae Talaith Nevada. Hwn oedd y dyn a ymddangosodd mewn llys ar ôl ei wisgo ei hunan mewn hen ddillad, a gyda chlwyn dros un llygad, er mwyn twyllo'r barnwr a'r rheithgor i feddwl mai hen ddyn egwan ydoedd. Cerddodd o'r adeilad gyda gwên lydan ar ei wyneb.

Mae atgof arall yn dal i achosi gwên, ond y tro hwn ar fy wyneb i. Rhyw noswaith hafaidd roeddwn yn ciniawu gydag un o brif ddynion yr FBI mewn bwyty gwych yn Chicago. Roedd y dyn hwnnw wedi ysgrifennu llyfr ar hanes trosedd yn ei ddinas, ac yr oedd yn amlwg i mi ei fod wedi gwneud sawl camgymeriad. Yn un peth, roedd wedi honni mai *Wrigley* oedd cyfenw gwreiddiol mam Ll. M. Humphreys a bod hyn yn arwyddocaol oblegid mai *Wrigley* (gwm cnoi!) oedd yr enw pwysicaf yn Chicago. Cymerwyd amser i esbonio mai *Wigley* oedd y ffurf gywir. Yna, yn hollol ddiniwed, soniais am y cysylltiad rhwng Luella a Rosano Brazzi. Ni feddylliais ddim mwy am y peth nes fy mod yn ôl yng Nghymru mewn ystafell olygu yn HTV ddeuddydd yn ddiweddarach, pan ddaeth John Morgan i mewn. Dangosodd i mi erthygl fer ar dudalen flaen y *Times*. Er bod Rosano Brazzi heb gael ei ddrwgdybio am bron hanner can mlynedd, yr oedd yn y ddalfa yn Naples, ers y bore hwnnw, ar amheuaeth o fod yn gysylltiedig â'r Mafia. Cafodd ei ryddhau ar ôl dwy awr . . . diolch i Dduw! Wn i ddim a oes esgidiau sment i'w cael yng Nghaerdydd!

Er gwaethaf yr holl ymchwil a wnaethom i gyrraedd at y gwirionedd ym mhob agwedd o'r testun, mae 'na rai pobl sydd yn amhosib i'w darbwyllo. Deallaf fod chwedl yn parhau hyd heddiw yng Ngharno fod Al Capone ei hun yn enedigol o'r pentref hwnnw!

DON LLEWELLYN

AR WERTH

LLYFRAU PLANT. Dros 200 ohonynt i gyd o gyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd gyda rhai ychwanegol o'r pum degau. Mae'r casgliad yma'n cynnwys llyfrau megis *Deian a Loli*, *Trysorfa'r Plant* (cyfrol 1, a llawer mwy), *Llyfr Mawr y Plant*, llyfrau E. Morgan Humphreys, *Nansi'r Ditectif*, ac yn y blaen. Mae'r casgliad ar werth fel casgliad. Ymholiadau i **David Greenslade** (01222) 232625. Safon cyffredinol y llyfrau — cyflwr teg.

Teyrnog Serch y Parch. E. K. Jones, D.D., gan G. T. Jones, Rhosillanherch-rugog. Cylchrediad preifat, dim dyddiad. **Y Storm Gyntaf** gan Islwyn, gol. Meurig Walters, 1980. **Cofiant Joseph Thomas, Carno** gan Evan Davies, 1911. Cysyllter â **Mari Ellis, 4 Maes Laura, Aberystwyth SY23 2AU.** (01970) 617171.

Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol: Dyffryn Maelor, 1961, Aberteifi 1976, Wrecsam 1977, Caerdydd 1978, Caernarfon 1979, Dyffryn Lliw 1980, Ynys Môn 1983, Llanbedr Pont Steffan 1984, Y Rhyl 1985. **Rhaglen Eisteddfod Cymdeithas Gymraeg Coleg y Brifysgol Caerdydd, 1921.** **Awen 1977.** Detholiad o gyfansoddiadau Eisteddfod Ryng-golegol Cymru: Aberystwyth 1977. **Rhaglenni gornestau rygbi:** Cymru / Iwerddon 1973, Cymru / Lloegr 1975, Cymru / Iwerddon 1975, Lloegr / Cymru 1976, Cymru / Yr Alban 1976, Cymru / Ariannin 1976, Cymru / Lloegr 1977, Cymru / Ffrainc 1978, XV Clybiau Unedig URC / Siapan 1976. Llanelli / Abertawe 1976 (gornest y cwpan), Abertawe / Llanelli 1976, Caerdydd / Aberaman 1976, Abertawe / Llanelli 1977. **Cyhoeddiadau eraill:** *Lol*, rhif 7 (1971), rhif 8 (1972); *Y Lolitor* (1973). **Geiriadur Prifysgol Cymru**, Rhannau 1-5 (A-Brethyn). *Pelydr Ll. Gareth Meils / Elwyn Ioan, Lolfa*, 1970. *Cofio Gwenallt*,

Lynn Owen-Rees, Gomer, 1978. *Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid*, Hugh Derfel Hughes, Y Groeslon, 1979. *Traethawd . . . ar Edmund Prys, Archddiacon Meirionnydd*, G. Jones (Glan Menai), Conwy 1899 (clawr caled). *Welsh Country Upbringing*, D. Parry-Jones, Batsford, 1949 (clawr caled). Oll mewn cyflwr da, i'w cael am bunt yr un ac eithrio'r pedair olaf sydd am 50c yr un. Cludiant yn ychwanegol. Cysyllter â **Howard Huws, 26 Pen y Ffridd, Bangor, Gwynedd LL57 2LZ** (01248) 351503.

YN EISIAU

Geiriadur y Gyfraith gan Robyn Lewis, Gwag Gomer, 1992. Cysyllter ag **Elgan Davies, Llyfrgell yr Hen Goleg, Prifysgol Cymru, Aberystwyth** (01970) 633130.

Gwae Ff Fy Myw: Cofiant Hedd Wyn gan Alan Llwyd, Barddas, 1991. Cysyllter â **Gwilym Vaughan Jones, Pencoed, 20 Trefonwys, Bangor, Gwynedd LL57 2HU** (01248) 353463.

Cymdeithas Gwilym Cowlyd



Bydd cyfarfod yn **FAIRY FALLS HOTEL, TREFRIW** nos Fercher, 13 IONAWR 1999 am 8 o'r gloch i sefydlu cymdeithas er cof am yr argraffwr, llyfrwerthwr a'r arwestwr hynod o Ddyffryn Conwy
Am fwy o fanylion ffloniwch **RHYS MWYN** (01286) 672539